Joint Council for Qualifications CIC

# Eglurhad i ganolfannau y mae RAAC, Caledonian Modular neu broblemau adeiladu tebyg yn effeithio arnyn nhw – 2024/25

Cyhoeddwyd am y tro cyntaf Tachwedd 2024

Cynhyrchwyd ar ran:

©JCQ^CIC 2024

Bwriad y ddogfen hon yw egluro sut mae trefniadau sydd ar waith yn barod yn gymwys i'r canolfannau hynny y mae RAAC, Caledonian Modular neu broblemau adeiladu tebyg yn effeithio arnyn nhw.

I gymharu, mae'r trefniadau hyn, fel y'u cyhoeddwyd yn nogfennau'r CGC, wedi'u defnyddio mewn cyfresi arholiadau blaenorol yn yr achosion hynny, er enghraifft, lle gallai pethau fel tân neu lifogydd fod wedi effeithio ar ysgol neu goleg. Defnyddiwyd y trefniadau hyn yn 2024 yn ogystal yn achos unrhyw ysgol a choleg a effeithiwyd gan RAAC, Caledonian Modular neu broblemau adeiladu tebyg.

Mae'n bwysig bod ysgol neu goleg yn trafod ei amgylchiadau â'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol cyn gynted â phosibl. Bydd y corff dyfarnu wedyn yn gallu penderfynu pa gefnogaeth sy'n briodol i'w rhoi a hefyd yr hyn sy'n bosibl o ran y trefniadau cyhoeddedig sydd ar gael yn barod. Bydd y corff/cyrff dyfarnu am fod yn fodlon bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n llawn ar gyfer asesiadau ond bod eu gallu i'w cwblhau wedi'i effeithio'n faterol gan amgylchiadau andwyol sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Ni all cyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am ystyriaeth arbennig os oes amharu wedi bod ar addysgu a dysgu oherwydd RAAC, Caledonian Modular neu broblemau adeiladu tebyg.

Mae'r trefniadau yn cael eu crynhoi isod. Ni fyddant ar gael i bob ymgeisydd mewn ysgolion a cholegau y mae RAAC, Caledonian Modular neu broblemau adeiladu tebyg yn effeithio arnyn nhw fel trefniant safonol.

## Estyniadau i waith cwrs/asesiad di-arholiad

Gall y cyrff dyfarnu ganiatáu estyniad o hyd at 45 diwrnod calendr i unrhyw ganolfan a effeithir o ran cyflwyno marciau ymgeiswyr a gwaith ar gyfer cyfres arholiadau Mehefin 2025.

## Ymgeiswyr yn bresennol ond dan anfantais wrth gynhyrchu gwaith i'w asesu (gwaith cwrs/asesiad di-arholiad)

Yn yr ysgolion neu golegau hynny sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan RAAC, Caledonian Modular neu broblemau adeiladu tebyg, efallai y bydd ymgeiswyr yn gallu cwblhau gwaith i'w asesu, gyda neu heb estyniad, ond y gallent fod yn gwneud hynny dan amodau andwyol yn ystod yr asesiad(au).

Os yw ysgol neu ganolfan o'r farn bod effaith andwyol materol wedi bod ar gynhyrchu gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad, yna dylai gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol.

Bydd y corff dyfarnu yn penderfynu ar y cais, yn unol ag adran 3 dogfen y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* -

http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

## Swm llai o waith (gwaith cwrs/asesiad di-arholiad)

Lle mae RAAC, Caledonian Modular neu broblemau adeiladu tebyg wedi effeithio ar ysgol neu ganolfan i'r fath raddau fel nad yw ymgeiswyr yn gallu cwblhau gwaith i'w asesu, hyd yn oed gydag estyniad i'r terfyn amser, gall fod yn bosibl i gorff dyfarnu dderbyn swm llai o waith. Rhaid i'r canolfannau y mae hyn yn effeithio arnynt gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol am gyngor.

Rhaid i ysgol neu goleg drafod ei amgylchiadau penodol â'r corff dyfarnu perthnasol, gan ystyried opsiynau ymarferol i'r posibilrwydd o leihau swm y gwaith mewn uned gwaith cwrs neu gydran asesiad di-arholiad. Gweler paragraffau 5.4 a 5.5 dogfen y CGC, *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* -

http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

## Gwaith annigonol i'w asesu

Os nad yw'n bosibl derbyn swm llai o waith i'w asesu, yna gall corff dyfarnu ganiatáu ystyriaeth arbennig drwy addasu gradd yr ymgeisydd yn ôl adran 4 dogfen y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig.* Bydd corff dyfarnu yn ystyried unrhyw geisiadau fesul achos unigol.

## Arholiadau wedi'u hamserlennu

O ran arholiadau wedi'u hamserlenni, ni fydd cyrff dyfarnu yn gallu derbyn ceisiadau am ystyriaeth arbennig oherwydd amhariad ar yr addysgu a dysgu oherwydd RAAC, Caledonian Modular neu broblemau adeiladu tebyg.

Bydd y broses ystyriaeth arbennig sefydledig yn dal i fod yn berthnasol, fel y manylir yn nogfen y *CGC Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig.*

Mae'n bwysig bod ysgolion a cholegau yn adolygu eu trefniadau ar gyfer cynnal arholiadau gan sicrhau, cyn belled ag y bo modd gwneud hynny, bod modd lleihau i'r eithaf unrhyw

amhariad ar arholiadau, megis sŵn.

### Gwybodaeth gyswllt y cyrff dyfarnu

Rhaid i ysgolion a cholegau gysylltu â'r corff/cyrff dyfarnu perthnasol cyn gynted â phosibl i drafod eu hamgylchiadau unigol. Rhestrir manylion cyswllt y cyrff dyfarnu isod:

#### AQA

RAACqueries@aqa.org.uk
0203 107 4739

#### City & Guilds

technicals.quality@cityandguilds.com

#### NCFE

AssessmentDelivery@ncfe.org.uk

#### OCR

support@ocr.org.uk
01223 553998

#### Pearson

https://support.pearson.com/uk/s/qualification-contactus
Dylai canolfan ddyfynnu 'RAAC' yn y 'disgrifiad', bydd gwneud hynny'n sicrhau bod eu hachos yn cyrraedd y tîm cywir. 0344 463 2535

#### CBAC

Specialrequirements@wjec.co.uk